

# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 38
TACHWEDD 2011

Ar nos Sul y 30ain o Hydref, ganed merch fach o'r enw Danica May Carnacho ymhell dros y môr ar Ynysoedd y Philipinos. Yn Ysbyty Coffa Jose Fabella yn mhrifddinas y wlad, Manila, y bu hynny. Ond beth meddech chi oedd mor arbennig am enedigaeth Danica May Carnacho? Dewiswyd hi gan y Cenhedloedd Unedig fel symbol o'r ffaith fod poblogaeth y byd wedi cyrraedd saith biliwn. Yn yr un modd, cafodd bachgen bach a aned yn Bosnia sylw tebyg ddeuddeng mlynedd yn ôl, am mai ef oedd yn symbylu'r ffaith bod poblogaeth y byd wedi cynyddu i chwe biliwn bryd hynny.

Testun llawenydd oedd genedigaeth Danica May Carnacho i'w rhieni ond roedd y ffaith bod poblogaeth y byd bellach wedi cynyddu i saith biliwn yn destun gofid a phryder mawr i eraill. Tra roedd y boblogaeth mewn llawer o fannau yn y gorllewin yn disgyn roedd yn parhau i gynyddu mewn gwledydd fel Cambodia, Bangladesh, India, Laos, Rwsia a Fietnam. O ganlyniad sbardunwyd gwleidyddion ac asiantaethau i leisio'u gofid na fyddai digon o adnoddau megis bwyd, dŵr glân a chysgod i bawb mewn blynyddoedd i ddod. Ers y flwyddyn 1880 mae poblogaeth y byd wedi dyblu.

Ond tra bo rhai yn gofidio am y dyfodol a sut i wynebu'r broblem hon, rhaid cydnabod bod y byd yn cael trafferth i sicrhau fod pawb yn cael cyfran teilwng a theg o fwyd heddiw, heb sôn am yfory. Gwyddom am newyn enbyd mewn rhannau o'n byd fel dwyrain yr Affrig. Dywedodd Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Ban Ki-moon: '*Tra bod yna ddigonedd o fwyd ar gael mae yna filiwn o bobl yn mynd i'r gwely bob nos yn newyno*g'. Mae ei eiriau yn ein hatgoffa o'r hyn a ddywedodd Ghandi: *'Mae yna ddigon o adnoddau yn ein byd i gwrdd â'n hangen ond nid ein trachwant'. (There is enough in our world to meet our need but not our greed)* . Tra bo llawer yn mwynhau bywydau bras a moethus gwyddom am gymaint sydd heb ddim. Ac nid yw hyn yn deg nac yn iawn.

Ffaith arall a ddylai ein sobri yw sylweddoli ein bod ni, pobl y gorllewin, yn defnyddio cymaint o adnoddau yn ein bywydau beunyddiol. Meddai un ysgolhaig o Aberystwyth, Dr Mark Whitehead, *Pe bai pawb yn y byd yn byw fel yr ydym ni'n byw ym Mhrydain Fawr, fe fyddai angen dwy blaned. A phe bai pawb yn y byd yn byw fel mae pobl yr Unol Daleithiau yn byw fe fyddai angen saith planed*.

Er nad yw'r cynnydd ym mhoblogaeth y byd yn digwydd yn y gorllewin rhaid cydnabod fod gan bawb ohonom gyfrifoldeb i ddefnyddio a rhannu adnoddau'r ddaear yn gydwybodol er mwyn sicrhau fod pob person yn cael cyfran o ffrwythau'r greadigaeth. Diolchwn am waith mudiadau fel Cymorth Cristnogol, Oxfam ac Achub y Plant ac am bob un arall sy'n gweithio'n ddyfal i ddileu tlodi a newyn gan sicrhau adnoddau hanfodol i dlodion ein byd. Diolchwn iddynt am ein dwysbigo ninnau i gymryd ein cyfrifoldebau fel brodyr a chwiorydd o ddifrif. Boed inni weddïo a gweithredu am newid er gwell a boed i holl fabanod ein byd, heddiw ac yfory, gan gynnwys Danica May Canacho, brofi o fendithion helaeth y blaned hon ac o holl roddion ein Duw a'n Tad Nefol.

Pob bendith
Judith, Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW. Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

## CALENDR MIS TACHWEDD 2011

| | | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr y Mis: Mervyn Hughes | Organydd y Mis : Ceris Gruffudd | |
| 6 Tachwedd 2.30yp | Oedfa Gymun : Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue |
| 13 Tachwedd 10.00yb | Oedfa Deuluol : Gweinidog<br>Dalier Sylw: Cynhelir yr Oedfa am 10.00yb. | |
| 20 Tachwedd 2.30yp | Oedfa Bregeth<br>Dr Rhidian Griffiths | Gofal y Te: Dafydd ac Elen |
| 27 Tachwedd 10.30yb | Clwb Sul bach ac Oedfa Bregethu: Gweinidog | |
| 4 Rhagfyr 2.30yp | Oedfa Gymun<br>Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue |

**I'CH DYDDIADUR**

7 Tachwedd: Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol: Neuadd Llanbadarn: 12.15-1.30yp
9 Tachwedd: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
9 Tachwedd: Cymdeithas Bethel: Jim Griffiths, Clerc Cyngor y Dref am 2.00yp.
10 Tachwedd: OS MêTS: Gweithdy Coginio: Neuadd Tal-y-bont am 7yh
23 Tachwedd: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
24 Tachwedd: Os MêTS: Gwibdaith i Langrannog
16 Tachwedd: Cymdeithas y Penrhyn: Heini Gruffudd : 'Y Tren i Ravensbrück' am 7.30yh
29 Tachwedd: Cwrdd Gweddi Misol yn festri Horeb 7.30
11 Rhagfyr: Oedfa Arbennig i ddathlu'r Nadolig yn y Morlan am 2yp yng nghwmni Dafydd Iwan o dan nawdd Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion
14 Rhagfyr: Cinio Nadolig Cymdeithas Bethel yn y Ffarmers, Llanfihangel-y-Creuddyn. Rhowch wybod i'r Gweinidog os hoffech ymuno â ni am ginio.

**LLOFFION:**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Sue, Mervyn a'r teulu ar golli brawd Sue ym mis Medi.
**Cydymdeimlwn** yn ddwys hefyd â Gwenan, Richard a'r teulu ar golli chwaer-yng-nghyfraith.
**Pen-blwydd Hapus i** Mr Henry Thomas ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed yn ddiweddar.
**Dymuniadau gorau i:**
Mrs Bethan Davies sydd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd.
Mrs Connie Evans sydd wedi bod yn yr ysybyty a llongyfarchiadau iddi ar ddod yn hen-famgu i efeilliaid, ac i Neil ar ddod yn ddad-cu. Croeso cynnes i Telyn a Rowan.
Lowri Morgan sydd wedi cychwyn yn y coleg yng Nghaerfyrddin.
Cerys Humphreys sydd wedi cychwyn ar gyfnod o hyfforddiant fel parafeddyg.

**Apêl Pen-pal**: Yn ystod ymweliad Lynne Hughes â Sri Lanka cafodd syndod bod y plant yn gofyn am bensiliau a beiros yn hytrach nag arian. Mae'n fwriad gan Lynne gasglu gymaint o'r nwyddau hyn, gan gynnwys papur a crayons, i anfon i'r plant yn Sri Lanka. Mae ganddi gyswllt yno i'w dosbarthu. Bydd yr apêl ar agor tan y Nadolig a gellir cyflwyno unrhyw gyfraniad i Sue a Mervyn Hughes.

**Gair y Dydd**: Os oes rhywun yn dymuno archebu copi o 'Gair y Dydd' am 2012, cysylltwch â Ceris cyn gynted ag y bo modd. Cost am y flwyddyn yw £6
**Rhaglen Cymanfa Ganu 2012:** copïau ar gael gan Robert neu Ceris. Pris: £1.30

**Dathlu 80 mlynedd ers Agor y Festri**: Cynhelir arddangosfa yn y festri o luniau yn dangos gweithgaredd yng nghapel Horeb dros y blynyddoedd. Rydym yn ddiolchgar iawn i William am osod yr arddangosfa. Byddwn yn ychwanegu at yr arddangosfa dros yr wythnosau nesaf ac os oes gennych unrhyw luniau o weithgaredd a gynhaliwyd yn Horeb a fyddech yn barod i'w benthyca i William? Bydd unrhyw lun yn cael ei sganio er mwyn gwneud copi. Cewch y llun gwreiddiol yn ôl. Hefyd, yn gynnar yn y flwyddyn newydd byddwn yn cynnal oedfa arbennig i ddathlu pen-blwydd y festri drwy ofyn i'r aelodau ddwyn atgofion am eu profiadau yn Horeb neu unrhyw gapel arall y buont yn ei fynychu. Mawr obeithiaf y daw cynulleidfa dda at ei gilydd i greu oedfa gofiadwy. Dowch i gysylltiad â'r Gweinidog os ydych yn barod i gymryd rhan.
**Nodyn gan y Trysorydd**: 'Er mwyn cydymffurfio ag anghenion awdit byddwn yn cau'r llyfrau ar 31 Rhagfyr 2011 ac felly gofynnwn yn garedig i bob cyfraniad fod mewn llaw erbyn **23 Rhagfyr** fan bellaf.
Bydd unrhyw gyfraniad ar ôl y dyddiad hwnnw yn cael ei gynnwys yng nghyfrifon 2012.'. Diolch yn fawr.